

Benthyciadau tymor byr cost uchel

Dyma ychydig o wybodaeth bwysig i'ch helpu chi

Taflen wybodaeth
Rhif.004

Methu ag ad-dalu ar amser

Meddylwch yn ofalus – efallai nad rholio drosodd neu ymestyn eich benthyciad yw'r opsiwn gorau a gallai wneud pethau'n waeth.

Os ydych chi'n teimlo eich bod wedi'ch llethu, neu os na allwch ymdopi â'ch arian, mae help ar gael i gefnogi eich lles meddyliol ar hyn o bryd. Ewch i www.moneyhelper.org.uk/wellbeing neu ffoniwch 0800 138 7777.



Mae'n bryd gweithredu

- **Meddylwch yn ofalus cyn benthycia mwy.** Mae benthycia mwy o arian yn debygol o waethygu eich sefyllfa.
- **Gweithio allan faint sy'n ddyledus gennych.** I wneud hyn, bydd angen i chi wneud rhestr o bawb y mae arnoch arian iddynt. Gall cynghorydd dyled eich helpu.
- **Adnabod pa ddyledion sydd â blaenoriaeth a'u rhoi yn gyntaf.** Mae rhai dyledion yn fwy brys nag eraill oherwydd gall canlyniadau peidio â'u talu fod yn fwy difrifol nag ar gyfer dyledion eraill, er enghraifft, morgais, rhent, treth cyngor, neu ôl-ddyledion nwy neu drydan. Gall cynghorydd dyled eich helpu i gyllidebu i gadw eich arian dan reolaeth.

Trafodwch gyda'ch benthyciwr

- Os ydych chi'n cael trafferth talu'n ôl ar amser siaradwch â'ch platfform P2P a all awgrymu ffyrdd o ad-dalu a sicrhau ei fod yn fforddiadwy i chi.
- Os na wnewch hynny, efallai y byddwch yn wynebu costau uwch yn gyflym o log neu daliadau. Gallai colli taliadau hefyd effeithio ar eich statws credyd a'i gwneud yn anos cael credyd yn y dyfodol.

Cael cymorth a chyngor am ddim

- Mae pobl sy'n cael cyngor yn datrys eu problemau'n gyflymach na'r rhai nad ydynt ac mae cannoedd o filoedd yn cael cyngor am ddim ar ddyledion bob blwyddyn.
- Cysylltwch ag un o'r sefydliadau hyn am gyngor am ddim ar ddyledion.



Gweler drosodd am fanylion ble i gael helpu chyngor.

Cyngor am ddyledion – mae cymorth wrth law

Cyngor am ddyledion yw lle cewch help gan bobl i ddelio â'ch dyled. Gallant eich helpu i siarad â phobl y mae arnoch arian iddynt a sefydlu cynllun ad-dalu y gallwch gadw a iddo.

- Mae pobl sy'n cael cyngor yn datrys eu problemau'n gyflymach na'r rhai nad ydynt ac mae cannoedd o filoedd yn cael cyngor am ddim bob blwyddyn.
- Beth bynnag fo'ch sefyllfa, gall cyngor am ddyledion helpu. Y lle cyntaf ddylech fynd yw Offeryn Lleoli Cyngor ar Ddyledion MoneyHelper: **www.moneyhelper.org.uk/debt-advice-locator** neu 0800 138 7777 ar y ffôn neu +44 7701 342744 am sgwrs WhatsApp.

Gallwch hefyd gysylltu â'r sefydliadau dielw canlynol yn uniongyrchol am gyngor am ddim, anfeirniadol ac annibynnol ar y ffôn, ar-lein a wyneb yn wyneb:



MoneyHelper

Am offer, gwybodaeth a chyngor ariannol am ddim, diduedd a hawdd cael gafael arnynt, ewch i **www.moneyhelper.org.uk** neu ffoniwch 0800 138 7777.

Money Advice Scotland

Os ydych yn byw yn yr Alban, ewch i **www.moneyadvicescotland.org.uk** i ddod o hyd i fanylion cyswllt am gyngor ar ddyledion yn eich ardal leol.

Cyngor ar Bopeth

I gael cyngor a gwybodaeth am ddyledion a phynciau eraill, ewch i'ch Cyngor ar Bopeth lleol neu ewch i **www.citizensadvice.org.uk**.

Advice NI

Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, ffoniwch 0800 915 4604, e-bostiwch advice@adviceni.net neu ewch i **www.adviceni.net** am gyngor ar ddyledion.

Cyngor ar Bopeth Cymru

Os ydych yn byw yng Nghymru, gallwch ffonio Adviceline ar 0300 330 1313 os ydych am siarad â rhywun am eich dyledion. Mae galwadau'n costio 12c y funud o linell dir, ac o 3c i 45c o ffôn symudol neu ewch i **www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/Dyled-ac-arian/help-gyda-dyled**.

AdviceUK

Mae canolfannau aelodau yn cynnig cyngor ar ddyledion gan gynnwys cyngor arbenigol i gymunedau lleiafrifol a phobl ag anableddau – **www.adviceuk.org.uk** neu ffoniwch 0300 777 0107.

Christians Against Poverty (CAP)

I gael cyngor am ddim ar ddyledion yn eich cartref, gwiriwch y cod post **www.capuk.org** yna ffoniwch 0800 328 0006.

Llinell Ddyled Genedlaethol

Os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban ffoniwch 0808 808 4000 neu ewch i **www.nationaldebtline.org** am gyngor a gwybodaeth am ddyledion.

Elusen Dyled StepChange

Am gyngor ar ddyledion ledled y DU ffoniwch 0800 138 1111 neu ewch i **www.stepchange.org**

Business Debtline

Yn cynnig cyngor cyfrinachol am ddim ar ddyledion i'r hunangyflogedig a busnesau bach – **www.businessdebtline.org** neu 0800 197 6026.

Sefydliadau defnyddiol eraill



Cyngor Cyfreithiol Sifil

Efallai y cewch gymorth cyfreithiol os yw eich cartref mewn perygl. Edrychwch ar **www.gov.uk/civil-legal-advice** neu ffoniwch 0845 345 4345.

Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol

Os oes gennych gŵyn na allwch ei datrys gyda'ch benthyciwr, efallai y bydd Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol yn gallu helpu – ffoniwch 0300 123 9123 neu 0800 023 4567 neu ewch i **www.financial-ombudsman.org.uk**

Y Samariaid

Ffoniwch 0808 164 0123 neu e-bostiwch **jo@samaritans.org** i gael help os ydych chi'n cael trafferth ymdopi â phethau. Ni all y Samariaid gynnig cyngor ar ddyledion, ond gallant ddarparu cymorth a chymorth lles cyfrinachol am ddim i'r rhai sydd mewn trallod 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.